**RHONDDA CYNON TAF**
**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION YR HINSAWDD**

Cofnodion o gyfarfod y Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd a gynhaliwyd Dydd Mercher,10 Tachwedd 2021 am 10.00 am.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Lewis | Y Cynghorydd M Norris |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd J Barton |
| Y Cynghorydd S Belzak | Y Cynghorydd E Webster |

**Cynrychiolwyr Allanol a wahoddwyd i'r Grŵp Llywio**

Ms H Richards – Aelod Cyfetholedig
Mr I Thomas – Aelod Cyfetholedig

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr R Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Lawson, Rheolwr Cyflawniad
Mr A Roberts, Pennath Ynni a Lleihau Carbon
Mr R Wistow, Ecolegydd

## 9 Croeso'r Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd a chroesawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Barton i'r Grŵp. Yn ogystal â hynny, rhoddodd y Cadeirydd wybod nad oedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber bellach yn aelod o'r Grŵp, a diolchodd iddi am ei chyfraniadau i'r Grŵp. Cadarnhaodd y bydd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings yn cymryd rôl yr Is-gadeirydd.

## 10 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant

ynglŷn â'r agenda.

## 11 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2021 yn rhai cywir.

## 12 Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydanol, a'r Cynllun ar gyfer Rhoi Hynny ar Waith

Fe wnaeth y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon roi diweddariad i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd mewn perthynas â'r gwaith sydd ar y gweill o ran llunio Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan (EVC) a sut mae'n berthnasol i ymrwymiadau ehangach y Cyngor o ran Sero Net a Lleihau Carbon.
Atgoffwyd yr aelodau bod y Gweithgor Gwefru Cerbydau Trydan a Thrafnidiaeth wedi'i sefydlu ym mis Ebrill 2021. Mae'n cynnwys swyddogion o bob grŵp Gwasanaeth, ac yn cael ei arwain gan Garfan Materion Ynni a Lleihau Carbon Eiddo'r Cyngor.

Rhan gyntaf y prosiect oedd datblygu Strategaeth i gwmpasu dyfodol Gwefru Cerbydau Trydan. Cafodd yr Aelodau wybod bod hyn yn nodi dyheadau'r Cyngor ac yn gosod y llwyfan ar gyfer datblygu isadeiledd gwefru Cerbydau Trydan yn y dyfodol, sy'n rhan o gylch gorchwyl y Cyngor.

Mae'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan (EVC) wedi'i diweddaru ac yn barod i'w chyhoeddi yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet. Mae hyn yn dilyn gwaith ymgynghori mewnol â rhanddeiliaid ac ail ymgyrch ymgynghori gyhoeddus. Cafodd yr Aelodau ragor o fanylion am yr ymgyrch ymgynghori helaeth a gynhaliwyd trwy blatfform ymgysylltu 'Dewch i Siarad' y Cyngor, gyda phrosiect pwrpasol o'r enw 'Dewch i Siarad am Wefru Cerbydau Trydan'. Cafodd y sylwadau, y ceisiadau a'r wybodaeth arall a gyflwynwyd yn rhan o'r ymgynghoriad eu rhoi mewn adroddiad a'u bwydo i mewn i'r ddogfen strategaeth derfynol.

Cafodd yr Aelodau wybod mai'r camau nesaf fydd llunio Cynllun Gweithredu gyda'r nod o amlinellu'r ffordd ymlaen yn glir, yn ogystal â nodi gyda phwy y mae angen cysylltu â nhw, a sut y bydd angen cynllunio a gweithredu'r camau arfaethedig. Bydd y Cynllun yma hefyd yn cynnwys 'Cynllun Camau Gweithredu' sy'n nodi nodau clir i'r Cyngor, gan gynnwys targedau tymor byr, canolig a hir i'r Cyngor anelu atynt, wrth symud tuag at ddefnyddio cerbydau trydan.

Yn ogystal â hynny, cafodd yr Aelodau wybod am broses asesu effaith gynhwysfawr a gynhaliwyd gyda chydweithwyr yn Uned Gwasanaethau'r Gymraeg a'r Gwasanaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth ddatblygu'r strategaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad a chydnabu'r gwaith

a wnaed i sefydlu'r Strategaeth gadarn gan nodi bod y strategaeth yn amlwg wedi'i hystyried yn ofalus, gan gynnig lleoliadau diogel a hygyrch i breswylwyr.

Canmolodd un Aelod y broses ymgynghori fanwl a gynhaliwyd a sut mae'r sylwadau o'r broses yma wedi cael eu hystyried a'u bwydo i'r strategaeth derfynol. Dywedodd fod hyn yn dangos gwerth ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd a grwpiau ehangach o ran sicrhau bod y rheini ag anableddau wedi'u cynnwys yn y gwaith a goresgyn unrhyw rwystrau posibl o ran manteisio ar y rhwydwaith gwefru cerbydau trydan.

Holodd Aelod arall am wybodaeth a welwyd y tu allan i'r cyfarfod ynghylch gosod cyfyngiad Llywodraeth y DU ar wefru Cerbydau Trydan yn ystod yr oriau prysuraf. Dywedodd y swyddogion nad oedden nhw'n effro i fanylion y cyfyngiadau penodol a grybwyllwyd gan yr Aelod, ond oherwydd cymhlethdod y rhwydwaith ynni, mae'n bosibl y bydd angen cynnal trafodaethau gyda chyflenwyr ynni ynghylch cyflwyno dull gwefru deallus ar adegau penodol, a allai arwain at lywio arferion defnyddwyr o ran gwefru Cerbydau Trydan. Sicrhawyd yr Aelodau y bydd trafodaethau yn parhau i gael eu cynnal gyda chyflenwyr ynni i sicrhau bod y dull mwyaf addas yn cael ei roi ar waith.

Cododd un Aelod y mater o bwyntiau gwefru a hygyrchedd i bwyntiau gwefru mewn strydoedd teras, gan nodi problem o ran ceblau yn cael eu gosod ar draws palmentydd, a gofynnodd i'r Cyngor ddarparu arweiniad clir i breswylwyr ar gyfreithlondeb yr arfer yma, yn unol ag Awdurdodau Lleol eraill. Aeth yr Aelodau ati i gydnabod yr anhawster a wynebir oherwydd dyluniad y strydoedd mewn sawl lleoliad, yn enwedig yng Ngogledd y fwrdeistref - hynny yw, y problemau o ran strydoedd teras a chyrchu pwyntiau gwefru addas. Nododd y swyddogion y risgiau posibl o ran iechyd a diogelwch sy'n codi pan gaiff ceblau eu gosod ar balmentydd, ac amlygwyd o'r adroddiad bod dewisiadau amgen i barcio gartref yn cael eu cynnwys fel datrysiad posibl o dan yr amgylchiadau hyn. Cafodd yr Aelodau hefyd sicrwydd bod canllawiau ar y dull addas o wefru cerbydau trydan gartref, gan gynnwys cyngor ynghylch sefyllfa gyfreithiol llusgo ceblau o gartrefi i gerbydau, wedi'i gynnwys yn rhan o'r cynllun gweithredu.

Roedd mwyafrif yr Aelodau'n cytuno bod datblygu'r strategaeth yn gam cadarnhaol ac yn symud y trafodaethau ehangach ar ddefnyddio cerbydau trydan i'r cam nesaf. Canmolodd y grŵp ymdrechion y Swyddogion, a diolch iddynt am eu gwaith yn datblygu'r strategaeth.

**PENDERFYNODD Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

- Ystyried a nodi'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan, a darparu'r adborth uchod i'r Cabinet mewn perthynas â rhoi'r strategaeth arfaethedig ar waith a'i chyhoeddi.

- Derbyn adroddiadau pellach i'r Grŵp Llywio, gan ddarparu

diweddariadau pellach ar gynnydd o ran datblygu Cynllun Gweithredu.

Nodwyd bod un Aelod (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Belzak) wedi ymatal rhag pleidleisio ar yr eitem yma, gan nodi y byddai buddsoddiad pellach mewn cludiant bysiau yn well i'r amgylchedd na Cherbydau Trydan.

**13 Prosiect Ôl troed Carbon y Cyngor**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor ddiweddariad ynghylch Prosiect Ôl Troed Carbon y Cyngor, sydd â'r nod o fesur a deall Ôl Troed Carbon gweithgarwch Cyngor Rhondda Cynon Taf ar gyfer blynyddoedd ariannol 2019/20 a 2020/21. Bu Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor hefyd yn ymdrin â gofynion Adrodd Carbon newydd Llywodraeth Cymru am y un ddwy flynedd ariannol, yn ogystal ag agweddau ehangach yn ymwneud â'r dyfodol ar gyfer cyflawni ymrwymiadau tymor hwy Rhondda Cynon Taf o ran Net Sero a Lleihau Carbon.

Atgoffwyd yr Aelodau bod adroddiad blaenorol wedi'i gyflwyno ym mis Mehefin, a oedd yn nodi Ôl Troed Carbon y Cyngor ar gyfer 2019/20. Tynnodd y Swyddog sylw'r Aelodau i adran 4.3 o'r adroddiad, a oedd yn dangos atgynhyrchiad o'r data hwn.

Aeth y Swyddog ymlaen i ddweud wrth yr Aelodau mai hwn oedd cam cyntaf y prosiect gyda'r ail gam yn ymwneud â gwaith i gyfrifo'r Ôl Troed Carbon ar gyfer 2020/21, gyda'r bwriad o nodi effaith Covid-19. Clywodd yr Aelodau fod y Cyngor wedi comisiynu'r Ymddiriedolaeth Garbon i gyflawni'r adroddiad llawn a ddarperir yn Atodiad A.

Tynnodd y Swyddog sylw'r Aelodau at y ffaith fod y cyfrifiadau wedi'u cwblhau ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Garbon gan ddefnyddio cyfrifiannell a ddefnyddir yn helaeth mewn sectorau cyhoeddus eraill. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd Llywodraeth Cymru wedi creu cyfrifiannell ar y pryd, felly defnyddiodd y Cyngor y gyfrifiannell gan yr Ymddiriedolaeth Carbon. Hysbyswyd yr Aelodau bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi llunio canllawiau yn ystod y flwyddyn, yr oedd modd i Awdurdodau Lleol eu defnyddio i gyfrifo ôl troed carbon. Roedd yn ofynnol i'r Cyngor gyflwyno data ar gyfer ôl troed 2020/21 ynghyd â data 2019/20 ar gyfer y llinell sylfaen. Dywedodd y Swyddog fod y Cyngor yn gallu bodloni'r dyddiad cau a chyflwyno'r ddwy gyfres yn unol ag amserlenni Llywodraeth Cymru.

Aeth y Swyddog hefyd ati i amlygu adran 4.11 o'r adroddiad, sy'n nodi'r tebygrwydd yn y broses adrodd rhwng canllawiau Llywodraeth Cymru a chyfrifiannell yr Ymddiriedolaeth Garbon ond cydnabuwyd bod rhai gwahaniaethau, a gafodd eu hamlinellu a'u hegluro i'r Aelodau.

Bydd y Cyngor yn parhau i gyfrifo ei Ôl Troed Carbon yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ond bydd hefyd yn parhau i ddefnyddio

cyfrifiannell yr Ymddiriedolaeth Garbon at ddibenion cymharu.

Tynnodd y Swyddog sylw'r Aelodau at adran 5 o'r adroddiad sy'n amlinellu sefydlu cynllun datgarboneiddio ar gyfer gweithgarwch Cyngor Rhondda Cynon Taf, sy'n brosiect allweddol i'n tywys yn llwyddiannus tuag at fod yn Gyngor Carbon Niwtral erbyn 2030.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu gwaith o ran casglu'r data a llunio adroddiad cynhwysfawr sy'n cydnabod pwysigrwydd nodi sefyllfa bresennol y Cyngor. Nododd y Cadeirydd y duedd ostyngol o ran yr Ôl Troed Carbon ond aeth ati i gydnabod yr heriau parhaus er mwyn parhau â hyn.

Holodd un Aelod pa waith yr oedd y Cyngor yn ei wneud o ran Dal Carbon a ph'un a yw'r Cyngor yn mesur faint o gynefinoedd mawn sydd yn y fwrdeistref, gan bwysleisio'r angen i werthfawrogi adnoddau naturiol a all helpu i liniaru rhai o'r lefelau Carbon sy'n digwydd. Dywedodd y Swyddog wrth yr Aelodau bod gwrthbwyso asedau naturiol yn cael ei gynnwys yn y data a ddarperir ar gyfer yr Ôl Troed Carbon ac amlinellodd waith llywodraethu is-grwpiau a sefydlwyd eisoes yn y Cyngor, sy'n gweithio ar brosiectau i ddefnyddio buddion cynefinoedd mawn sy'n bwydo i'r cynllun cyffredinol i leihau lefelau carbon o fewn y Cyngor.

Rhannodd Aelod arall ei bryder nad yw'r Ôl Troed Carbon yn cynnwys buddsoddiadau'r gronfa bensiwn a'r berthynas â buddsoddiadau tanwydd ffosil. Cafwyd trafodaeth ynghylch rôl Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a'r gwaith sy'n cael ei wneud i edrych ar leihau buddsoddiadau tanwydd carbon.

Cododd Aelod arall ymholiad ynghylch effaith prosesau gweithgynhyrchu ar y data am Ôl Troed Carbon ac effaith bosibl gweithgynhyrchwyr newydd yn symud i'r fwrdeistref. Dywedodd y Swyddog wrth yr Aelodau fod y data a ddarperir yn yr adroddiadau ar gyfer Rhondda Cynon Taf fel Cyngor ac nid y fwrdeistref gyfan. Serch hynny, cafodd yr Aelodau wybod bod lleihau carbon yn flaenoriaeth uchel i adran adfywio'r Cyngor yn ei chyfanrwydd.

**PENDERFYNODD Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad yma a'i ddiweddariadau yn rhan o waith parhaus Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd.

2. Rhoi adborth i'r Cabinet i gefnogi sefydlu Cynllun Datgarboneiddio Corfforaethol ar gyfer Cyngor RhCT i ddarparu llwybr clir ac amserlenni diffiniedig ar gyfer cyflawni'r nod o gyrraedd Net Sero erbyn 2030 a;

3. Derbyn adroddiadau pellach gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y

cynnydd yn 20212.

## 14 Prosiectau Cynhyrchu Ynni Allweddol a Materion Cysylltiedig

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Ynni a Lleihau Carbon ddiweddariad pellach i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd mewn perthynas â'r gwaith sydd ar y gweill o ran datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy a materion eraill sy'n gysylltiedig â Lleihau Carbon.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at adran 5 yr adroddiad a oedd yn manylu ar ddiweddariad ar brosiectau ynni adnewyddadwy cyfredol.

Amlygwyd y prosiectau canlynol i'r Aelodau, gan amlinellu'r llwyddiannau a'r gwaith yn y dyfodol sy'n ofynnol gyda diweddariadau allweddol yn cael eu darparu o gynnwys yr adroddiad:

- Gosod Fferm Solar 5MW;
- Ffynnon Dwym Ffynnon Taf;
- Datblygiadau Amgen (tyrbin gwynt Nant y Gwyddon a safle Bryn Pica)
- Ffermydd Gwynt 9MW;
- Fferm Wynt 3MW;
- Cyfleoedd Trydan Dŵr
- Prosiect Cerbydau Allyriadau isel iawn (ULEV)
- Rhaglen Lleihau Carbon;
- Prosiect Ôl Troed Carbon

Cyfeiriodd y Swyddog at adran 6 yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad i'r Aelodau ar fentrau a sefydlwyd i gefnogi gwaith y Grŵp Llywio, gan nodi bod Swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gweithio ar y cyd tuag at nod y Cyngor o ddod yn sero net erbyn 2030.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon am y diweddariad ac roedd yn falch o glywed am brosiect yn datblygu o amgylch Ynni Solar a Gwynt. Cydnabu’r Cadeirydd bwysigrwydd safle Ffynnon Dwym Ffynnon Taf ac anogodd ymweliad â’r safle gan fod y prosiect yn arloesol iawn. Ar gais y grŵp, nododd y Cadeirydd yr angen i archwilio ymhellach ddichonoldeb prosiectau hydro ar draws y Fwrdeistref Sirol.
Cododd un Aelod ymholiad ynghylch Pympiau Gwres a'r angen pellach i ymchwilio i nodi eu heffeithlonrwydd yn y tymor hir yng nghartrefi'r Fwrdeistref Sirol. Cydnabu'r Swyddog bwysigrwydd y prosiect o ran y Ffynnon Dwym a chadarnhaodd i'r Aelodau y byddai'n edrych ar drefnu ymweliad â'r safle. Roedd yr Aelodau yn cefnogi hyn gan ei fod yn cael ei ystyried yn gynllun arloesol sydd o fudd i’r Cyngor a’i breswylwyr.

Cydnabu’r Cadeirydd yr her o ddarparu pympiau gwres at ddefnydd preswyl am gostau fforddiadwy ar hyn o bryd ond tynnodd sylw at waith carfan Gwres ac Arbed Ynni y Cyngor sy’n gweithio gyda phreswylwyr ar hyn o bryd i ddarparu cymorth addas wrth osod pympiau gwres.

Cododd Aelod arall y potensial i'r Cyngor ailedrych ar Hydro-Gynlluniau o fewn y Gymuned i annog perchnogaeth, datblygiad a chyfranogiad cymunedol. Hysbysodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor yr Aelodau fod trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd gydag un Grŵp Cymunedol yng Nghwm Clydach ond ar hyn o bryd mae tua 14 o Gynlluniau Hydro yn cael eu hadolygu, ac mae rhai o'r rhain yn y Gymuned. Dywedodd wrth yr Aelodau y byddai'r Cyngor yn barod i ymgysylltu â'r Gymuned i bennu hyfywedd cynlluniau cydberchnogaeth. Trafododd un Aelod y potensial i Gyngor Rhondda Cynon Taf geisio dilyn cynlluniau sy'n defnyddio Dŵr o Fwyngloddiau fel ffynhonnell ynni o'i gymharu â Ffynhonnau Twym

**PENDERFYNODD Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad yma a'i ddiweddariadau yn rhan o waith parhaus Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd.

2. Derbyn adroddiad yn y dyfodol ar osod Fferm Solar, i dynnu sylw at a chynyddu potensial cynyddol y cynigion penodol yma.

3. Derbyn adroddiadau pellach gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn 2022.

## 15 Strategaeth Prosiect Cerbydau Allyriadau isel iawn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r cynnydd

Rhoddodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor amlinelliad o bwrpas yr adroddiad gan ddefnyddio gwybodaeth a gyflwynwyd i Fwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddarparu diweddariad i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd mewn perthynas â'r gwaith sydd ar y gweill gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) gyda'i strategaeth Cerbydau Allyriadau isel iawn (ULEV).

Amlygodd y Swyddog i'r Aelodau fod Cenex wedi'i gomisiynu i baratoi Strategaeth ULEV ddrafft ar gyfer y CCR ac roedd copi llawn o'r strategaeth ynghlwm yn Atodiad 1. Mae comisiynau pellach yn cynnwys Strategaeth ULEV Metro Plus a Strategaeth Tacsi ULEV.

Atgoffwyd yr aelodau mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r Awdurdod arweiniol sy'n rheoli cyllido'r trawsnewidiad ULEV ar gyfer y rhanbarth gyda'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTA) yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol y prosiect.

Tynnodd y Swyddog sylw'r Aelodau at adran 5 yr adroddiad a oedd yn manylu ar gynlluniau sy'n cael eu cynnal gyda'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gan gynnwys darpariaeth gwefrydd tacsi ULEV, ULEV - Darparu Seilwaith Gwefru at Ddefnydd Cyhoeddus ac ULEV - Darparu Seilwaith Gwefru at Ddefnydd Bws. Hefyd cafodd yr aelodau drosolwg o gyfleoedd yn y dyfodol fel yr amlinellwyd yn Adran 6 yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am yr adroddiad diweddaru gan nodi'r cyllid a addawyd yn adran 4 yr adroddiad a chynnwys strategaethau ar gyfer darparu tacsi a bysiau. Tynnodd sylw hefyd at y pethau cadarnhaol yn y strategaeth sy'n cyfrannu at ymdrechion ehangach ar draws Rhondda Cynon Taf i gyflwyno seilwaith cerbydau trydanol.

Nododd un Aelod y gostyngiad mewn gwasanaethau bysiau a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar breswylwyr a'r gallu i ddarparu strategaeth ULEV. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheng Flaen bwysigrwydd gwasanaethau bysiau ar draws y fwrdeistref ond cynghorodd yr Aelodau am effaith Covid-19 ar nifer y teithwyr, gwasanaethau ac effeithiau prinder gyrwyr. Sicrhawyd yr Aelodau bod gwaith yn cael ei wneud i sicrhau darpariaeth gyfredol o wasanaethau.

Cydnabu Aelod arall fod y nod ar gyfer fflydoedd bysiau a thacsi ULEV yn uchelgeisiol ond cododd bryderon ynghylch fflydoedd tacsi a'r gwaith paratoi y byddai'n ofynnol ei wneud yn unol â gweithredwyr tacsi cyn rhoi unrhyw newidiadau ar waith. Cynghorodd y Cyfarwyddwr - Iechyd Cyhoeddus, Amddiffyn a Gwasanaethau Cymunedol yr Aelodau fod y strategaeth wedi'i llywio gan ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda gweithredwyr fflyd tacsi ledled Cymru a dangosodd canlyniad hyn eu bod yn cael eu calonogi gan gynnig ond eu bod yn nodi bod yr angen am weithrediad peilot yn allweddol.

**PENDERFYNODD Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad ar y dull rhanbarth ehangach o ddatblygu strategaeth ULEV.

**16 Bioamrywiaeth a'r Bartneriaeth Natur Leol yn Rhondda Cynon Taf**

Rhoddwyd adroddiad i'r aelodau a gyflwynwyd gan Ecolegydd y Cyngor. Amlinellodd yr Ecolegydd bwrpas yr adroddiad, sef darparu diweddariad i aelodau ar waith y Cyngor a'r Bartneriaeth Natur Leol mewn perthynas â bioamrywiaeth yn RhCT a nodi cyfeiriad y gwaith hwn yn y dyfodol.

Rhoddwyd rhywfaint o gefndir i'r adroddiad i'r aelodau gyda'r Ecolegydd yn atgoffa'r Aelodau o bwysigrwydd y Ddyletswydd Bioamrywiaeth gan osod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i ystyried bioamrywiaeth yn y gwaith y mae'n ei wneud a'r heriau a'r cyfleoedd y mae hyn yn eu

cyflwyno o ran gweithio trawsadrannol. Mae'r broses hon wedi ymsefydlu yn niwylliant perfformiad corfforaethol y Cyngor ac er bod llawer o hyn yn arferol, mae hefyd yn annog rhai prosiectau arloesol.

Cyfeiriodd yr Ecolegydd at brosiect fferm wynt Pen Y Cymoedd a thrafod cynnwys y manylion a nodwyd yn yr adroddiad. Tynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd y broses Cynllunio ar fioamrywiaeth yn amlinellu newidiadau i Ganllawiau Polisi Cynllunio gan Lywodraeth Cymru fel y nodir yn yr adroddiad.

Atgoffwyd yr Aelodau o adroddiad Asedau Natur a gyflwynwyd yn flaenorol i'r pwyllgor sydd hefyd wedi arwain at nifer o brosiectau parhaus sy'n gysylltiedig â chyfleoedd adfer corsydd mawn, potensial storio carbon, rheoli dŵr a photensial bioamrywiaeth tir, ysgolion, coetiroedd hynafol a choed sy'n eiddo i'r Cyngor.

Hefyd, darparodd yr Ecolegydd drosolwg o brosiect ymgysylltu a gynhaliwyd trwy blatfform 'Dewch i Siarad RhCT' y Cyngor o'r enw 'Dewch i Siarad am Flodau Gwyllt' lle gwahoddwyd preswylwyr i nodi meysydd yr hoffent weld mentrau Blodau Gwyllt yn cael eu hystyried mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr ymgysylltiad wedi cael ymateb da a derbyniwyd nifer o ymatebion hyd yn hyn a fydd yn cael eu hadolygu yn ystod y misoedd nesaf.

Amlygwyd enghreifftiau pellach o ymgysylltu â'r gymuned i'r Aelodau trwy drafodaeth ynghylch y Cynllun Partneriaeth Natur Lleol a hysbysodd yr Ecolegydd yr Aelodau fod y cynllun newydd wrthi'n cael ei ysgrifennu. Tynnwyd manylion yr arian a dderbyniwyd fel rhan o'r cynllun a sut y cafodd ei wario at sylw'r Aelodau yn adrannau 4.7 a 4.8 o'r adroddiad.

Hefyd, diweddarodd yr Ecolegydd Aelodau o'r adroddiad ynghylch y prosiect Tirweddau Byw a manylion 29 o safleoedd peilot a nodwyd. Hysbyswyd yr Aelodau hefyd am benodi dau brentis bioamrywiaeth yn rhoi cyfle i wneud gwaith ymarferol ar y safleoedd hyn gan ddefnyddio mewnbwn goruchwylio a hyfforddi gan staff sefydledig, gan gynnwys y cydlynydd LNP a'r ecolegydd graddedig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am adroddiad cynhwysfawr yn nodi'r diweddariad dymunol ynghylch yr amrywiol brosiectau sy'n mynd rhagddynt ledled y fwrdeistref a'r cyfleoedd cydweithredu y mae'r rhain yn eu darparu.

Gwnaeth un Aelod sylw hefyd ar arfer da o ran gwaith trawsadrannol a buddion hyn ar draws yr awdurdod. Rhoddwyd canmoliaeth hefyd i'r ymgysylltiad sy'n cael ei gynnal gyda thrigolion lleol ynghylch bioamrywiaeth trwy'r platfform 'Dewch i Siarad RhCT'.

Cododd un Aelod gwestiwn ynghylch presenoldeb corsydd mawn a gwlypdiroedd yn RhCT a pham y gallai fod cynnydd yn y rhain yn sychu. Cynghorodd yr Ecolegydd yr Aelodau mai'r prif reswm am hyn fyddai

patrymau draenio.

**PENDERFYNODD Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

1. Nodi'r cynnydd a wnaed yn RhCT yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r cynnydd o ran pwysigrwydd cadwraeth bioamrywiaeth yng ngwaith y Cyngor.

2. Cefnogi'r proffil cynyddol y mae pob plaid yn y Senedd wedi'i roi i fioamrywiaeth, sy'n cael ei adlewyrchu yn y Rhaglen Lywodraethu.

3. Argymell i'r Cabinet y dylai'r Cyngor fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gyllid grant sydd ar gael i barhau â'r gwaith o ran y mater hwn.

**17 Strategaeth, Mesurau a Materion Teithio Llesol yn Rhondda Cynon Taf**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheng Flaen wybod i'r Aelodau mai diben yr adroddiad oedd amlinellu strategaeth y Cyngor i annog teithio llesol (cerdded a beicio) ar draws Rhondda Cynon Taf, y buddsoddiad sydd naill ai yn ei le eisoes neu sydd ar y gweill a'r materion y mae angen eu hystyried wrth weithredu cynlluniau. Amlygodd y Swyddog arwyddocâd yr adroddiad; gan ganolbwyntio ar Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, fel offeryn hanfodol y gellir ei ddefnyddio i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd gyda'r ffocws ar alluogi siwrneiau ystyrlon, trwy Feicio a cherdded. Dywedodd y Swyddog, o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, ei bod yn ofynnol i'r garfan lunio a chyflwyno Mapiau Rhwydweithiau Teithio Llesol i Lywodraeth Cymru erbyn mis Rhagfyr 2021 gydag awdurdodiad gan aelodau'r Cabinet.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y Mapiau Rhwydwaith ar hyn o bryd yn destun ymgynghoriad ffurfiol tan 22 Tachwedd 2021; hyd yn hyn, derbyniwyd 700 o ymatebion i'r ymgynghoriad, sy'n adlewyrchu'r diddordeb mewn Teithio Llesol.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheng Flaen i'r Aelodau y bydd cyflawni'r dyheadau a nodir yn y strategaeth yn dibynnu ar gyllid a chyfeiriodd aelodau at adrannau 5.5 a 5.6 o'r adroddiad, sy'n manylu ar lwyddiant y Cyngor wrth dderbyn cyllid tuag at y Cynllun Teithio Llesol. Dywedodd y swyddog y bydd Llywodraeth Cymru yn edrych i fuddsoddi £70 miliwn mewn seilwaith Teithio Llesol ledled Cymru eleni, a fydd yn cynorthwyo i greu portffolio helaeth o asedau newydd y bydd angen eu cynnal trwy ystod o ffyrdd gan gynnwys codi sbwriel, graeanu a thrwsio tyllau yn y ffordd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr atodiadau sydd ynghlwm wrth yr adroddiad yn nodi adroddiadau cynnydd blynyddol y mae'n ofynnol i'r

Cyngor eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn yn tynnu sylw at waith a phrosiectau a wnaed o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Dywedodd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor ddangos gwelliant parhaus flwyddyn ar ôl blwyddyn a thynnodd sylw at ystod o fentrau seilwaith a chyfleoedd addysg / hyfforddiant a amlinellir yn yr atodiadau.

Diolchodd y Cadeirydd i Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Rheng Flaen am yr adroddiad cadarnhaol, a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd. Cyfeiriodd y Cadeirydd yr aelodau yn ôl at adran 5.6 o'r adroddiad gan dynnu sylw at y pethau cadarnhaol mewn lefelau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22; fodd bynnag, roedd yn cydnabod yr angen am gyllid pellach ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Anogodd y Cadeirydd aelodau'r Cabinet a'r gymuned i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a fydd yn cael ei lunio a'i fwydo'n ôl i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021.

Roedd un aelod yn falch o'r ymdrechion a gymerwyd yn yr adroddiad; fodd bynnag, cododd ymholiad ynghylch llygredd sbwriel yn y llwybrau ac anogodd y Cyngor i ddatblygu strategaethau atal sbwriel i fynd i'r afael â'r broblem hon. Awgrymodd yr Aelod y dylai'r Cyngor ddefnyddio grwpiau yn y gymuned i atal llygredd sbwriel a chodi ymwybyddiaeth ledled y Fwrdeistref. Anogwyd hyn gan Aelodau gan eu bod yn cydnabod arwyddocâd grwpiau cymunedol fel adnodd enfawr i'r Cyngor. Soniodd aelod arall am gyfle'r Cyngor i gydweithredu â menter Trafnidiaeth Cymru 'Green Valley' fel llwybr posib arall i fynd i'r afael â llygredd sbwriel.

Cydnabu'r Grŵp y cyfleoedd y gall ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol ynglŷn â chasglu sbwriel eu cael wrth fynd i'r afael â'r mater ac amlygodd un Aelod waith y Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant a'r gwaith y mae'n yn ei wneud i edrych ar y mater hwn ymhellach.
Diolchodd yr Aelodau i swyddogion am eu cyfranogiad angerddol mewn ymgynghori â'r gymuned a sicrhau eu bod yn rhagweithiol wrth gael cymaint o safbwyntiau â phosibl ar y mater.

**PENDERFYNODD Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

- Nodi cynnwys yr adroddiad hwn er gwybodaeth a'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth weithredu ei strategaeth teithio llesol.

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 11.45 am**

**Y CYNGHORYDD RHYS LEWIS**
**Cadeirydd.**